

Adolygiad Rheoleiddio

Dyddiad: Hydref 2026

Cartrefi Cymoedd Merthyr- L150

Dyfarniad

Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau	
Gwyrdd	Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion
Hyfywedd Ariannol	
Melyn	Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion ac mae angen iddo barhau i reoli risgiau perthnasol er mwyn cynnal y sefyllfa hon

Mae newid i'r sgôr hyfywedd ariannol (Gwyrdd i Felyn) yn dangos bod ein gofynion wedi'u bodloni, ond mae proffil ariannol y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) yn golygu y gallai fod yn fwy heriol lliniaru effaith risg, neu gyfuniad o risgiau, pe baent yn digwydd.

Y Broses Ddyfarnu

Cynhaliwyd yr Adolygiad Rheoleiddio yn unol â'r [Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025](#). Roedd yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith o hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), ei gynllun gwella cydymffurfiaeth a metrigau hyfywedd ariannol. Ystyriwyd gwybodaeth o gyswllt rheoleiddiol arferol â'r RSL hefyd.

Hunanwerthuso - Gofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025. Rhaid ymdrin yn llawn â'r gofyniad a nodir isod yn eich hunanwerthusiad nesaf:

Gofyniad 4. Datganiad yn dangos sut mae safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn yr ymarfer hunanwerthuso, gan ddangos sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried a'r gwahaniaeth a wnaethant.

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

Cartrefi Cymoedd Merthyr Proffil

Nifer yr Unedau	4,105
Trosiant Blynnyddol	£ 28.466M
Sicrwydd Yswiriant	973%
Cymhareb Gerio	16%
Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr
Lleoliad	Y De

Mae'r ffigurau uchod o 31 Mawrth 2026, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.

Bwriad dyfarniadau rheoleiddio yw rhoi syniad i RSLs, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae RSLs yn gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN Digidol 978-1-80853-433-1
Hawlfraint y Goron 2026